Urdd Gobaith Cymru
Disgrifiad Swydd

Teitl y swydd:	Derbynnydd, Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Yn atebol i:	Cyfarwyddwr y Gwersyll
Cyflog:	Graddfa 3 Strwythur Cyflogau'r Urdd sef £15238 - £17151 + Lwfans Rheoli o £750 y flwyddyn. Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
Oriau gwaith:	35 awr yr wythnos. Oherwydd natur y swydd bydd yn ofynnol i'r swyddog weithio oddi allan i oriau safonol swyddfa. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg yn y cyswllt hwn fel rhan o rota cyfnodau dyletswydd
Lleoliad:	Gwersyll yr Urdd Caerdydd
Gwyliau blynyddol:	Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwr y Gwersyll.
Cyfnod prawf:	Bydd cyfnod prawf o 6 mis
Pensiwn:	Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'
Gwiriad DBS:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
Archwiliad meddygol:	Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol

Cefndir Gwesryll 4* a Chanolfan Cynadleddau o dan do adeilad unigryw Canolfan Mileniwm Cymru yw Gwersyll yr Urdd Caerdydd. Rydym yn croesawu dros 12,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar ymweliadau preswyl o bob cwr o Gymru a thros y byd. Mae gennym berthynas dda gyda holl gyflenwyr gweithgareddau y Bae a'r Ddinas a lleolir sywddfeydd adrannau eraill o'r Mudiad yn y Gwersyll yn ogystal

Diben y Swydd

- Cyfle i fod yn rhan o dîm deinamig Gwersyll mwyaf newydd Urdd Gobaith Cymru a leolir ym mwrlwm Bae Caerdydd
- Cydweithio gyda'r tîm rheoli i sicrhau rhediad llyfn y Gwersyll
- Cyfrifoldeb am rediad ac ansawdd prif Dderbynfa'r Gwersyll gan ymgymryd â thasgau gweinyddol ac ymarferol i ddarparu gwasanaeth llyfn ac effeithlon i'n holl gwsmeriaid ac adrannau eraill y Mudiad
- Hyrwyddo cynnyrch Gwersyll yr Urdd Caerdydd i gwsmeriaid cyfredol a newydd
- Cyfrifoldeb am rediad y Gwersyll tra ar ddyletswydd (telir lwfans am hyn)

Prif Ddyletswyddau

- Sicrhau croeso addas i holl ymwelwyr y Gwersyll
- Dyletswyddau gweinyddol cyffredinol gan gynnwys monitro lefelau stoc offer swyddfa a deunydd marchnata y Gwersyll a'r atyniadau lleol ynghyd a chyfrifoldeb am systemau post y swyddfa
- Ymdrin ag ymholiadau cyffredinol a phrosesu archebion penodol
- Cyfathrebu a threfnu anghenion cwsmeriaid cynadleddau a chyfarfod
- Ymchwilio i farchnadoedd newydd a chynigion addas er mwyn ehangu ystod cwsmeriaid y Gwersyll
- Marchnata cyrsiau'r Gwersyll a chynyddu nifer y gwersyllwyr ar gynigion megis Blas y Bae, Gwyl y Gaeaf a Gwyl Hwyl
- Cyfrifoldeb am rediad y Gwersyll tra ar ddyletwsydd gan gynnwys cyfrifoldeb am staff achlysurol, megis Gwyliwr Nos, a chyflenwyr megis staff y gegin. Bydd hwn yn cynnwys cyfnod o fod ar alwad dros nos i ymateb yn brydlon yn ol yr angen

Cyffredinol

- Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy'n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll ac adrannau eraill y Mudiad

Sgiliau a Chymwysterau

Hanfodol	Dymunol
Y gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog yn ysgrifenedig ac ar lafar (Cymraeg a Saesneg)	Profiad o weithio mewn awyrgylch Gwersyll
Sgiliau cyfrifiadurol da gan gynnwys profiad o raglenni Office e.e. Word, Excel a.y.b.	Profiad o raglennu bâsdata
Profiad a diddordeb mewn gwaith gweinyddol	Cymwysterau cyfrifiadurol perthnasol
Y gallu i flaenoriaethu a threfnu gwaith yn effeithiol	Cymhwyster uwch perthnasol

Unigolyn egnïol, brwdfrydig a threfnus	Profiad a'r gallu i weithio gyda phlant a phobl ifanc
Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm	Cymhwyster Cymorth Cyntaf
Y gallu i ddelio gyda materion cyfrinachol	Gwybodus am Wersyll yr Urdd Caerdydd a gwaith yr Urdd
Ymwybyddiaeth ac agwedd gyfrifol tuag at Iechyd a Diogelwch	
Agwedd groesawgar a hynaws	

Os am sgwrs anffurfiol cysylltwch â Tim Edwards, Cyfarwyddwr Gwersyll yr Urdd Caerdydd ar 029 2063 5672.

Cwblhewch Ffurflen Gais yr Urdd erbyn **9yb** ar **28.07.17** a'i anfon ar e-bost i tim@urdd.org neu at: Preifat a Chyfrinachol, Tim Edwards, Gwersyll yr Urdd Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL. Cynhelir cyfweliadau ar **ddydd Mercher 02.08.17**